

# Nodiadau cyflwyniad archwiliwr cynefin

## Amcan

Cyflwyno'r RSPB i'r plant, a'n gwaith cadwraeth dros fyd natur i gyd (adar a bywyd gwylt arall) wrth ddefnyddio ethos ein hymgyrch Rhoi Cartref i Fyd Natur.

Cewch wybod mwy am Roi Cartref i Fyd Natur ar: [rspb.org.uk/homes](https://rspb.org.uk/homes)

**Cynulleidfa:** Plant 5–11 oed

**Amser i'w gynnal** Oddeutu 10 munud

## Adnoddau

Cynrychioliadau gweledol a phwyntiau ysgogi yw'r sleidiau yn y cyflwyniad hwn i'ch helpu i gyflwyno cynnwys y nodiadau yma. Maen nhw'n clymu'r naratif at ei gilydd ac yn rhoi strwythur i'r cyflwyniad, wrth helpu i hybu trafodaeth a rhyngweithio gyda'r gynulleidfa.

## Fformat

Mae'r cyflwyniad wedi ei arbed fel ffeil Microsoft Office PowerPoint.

### Pwyntiau trafod a gwybodaeth bellach

Mae'r nodiadau hyn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ychwanegol i'ch helpu gyda thrafodaeth bellach am y pynciau dan sylw a chreu cysylltau posibl gyda'r cwricwlwm a gweithgareddau dilynol. Fe all yr unigolyn sy'n cyflwyno ddewis cyfeirio at rai o'r rhain yn ystod y cyflwyniad, os oes mwy o amser ar gael, neu eu hymgorffori mewn gwaith dilynol yn y dosbarth.



## Sleid un

**Gweithred:** cliciwch ar sleid un.

**Cyflwynydd:** Mae pob anifail, yn ein cynnwys ni, angen pethau tebyg i barhau'n iach a chadw'n fyw.

Meddyliwch. Beth sydd ei angen arnom i gyd i oroesi? Codwch eich llaw os allwch chi feddwl am unrhyw beth. Byddwn yn archwilio'r pethau hyn ar yr ychydig sleidiau nesaf.

### Pwyntiau trafod a gwybodaeth bellach

- Efallai yr hoffech yma rannu amcanion y cyflwyniad hwn:
  - archwilio pam fod angen i ni roi cartref i fyd natur
  - grymuso plant fel eu bod yn gwybod bod modd iddyn nhw eu hunain wella tir eu hysgol
- Efallai yr hoffech arwain plant hŷn drwy gyfeirio at eu dysgu gwyddonol o amgylch y saith Proses Bywyd sy'n dweud wrthym bod anifeiliaid yn fyw (symudiad, atgynhyrchu, sensitifrwydd, maetheg, ysgarthiad, resbiradaeth a thwff).
- Efallai yr hoffech egluro'r pwynt ymhellach i blant iau (ac i atgoffa plant hŷn) nad oes gwahaniaeth yn y bôn rhwng "anifail" a "bod dynol". Mae bodau dynol yn anifeiliaid hefyd.
- Cewch hyd i fwy o wybodaeth am ystod eang gwaith yr RSPB, yn cynnwys Rhoi Cartref i Fyd Natur, ar [rspb.org.uk](http://rspb.org.uk)



## Sleid dau

**Gweithred:** cliciwch ar sleid dau.

**Cyflwynydd:** Rydym angen dŵr i yfed ac i ymolchi ynddo, i gadw'n cyrff yn iach. Mae angen dŵr ar adar a bywyd gwyllt arall hefyd.



## Sleid tri

**Gweithred:** cliciwch ar sleid tri.

**Cyflwynydd:** Rydym angen bwyta bwyd i roi egni i ni. Mae angen bwyd ar fywyd gwyllt hefyd.

### Pwynt trafod a gwybodaeth bellach

Efallai yr hoffech greu cyswllt penodol rhwng “bwyta” a “maetheg” fel un o’r saith Proses Bywyd.




## Sleid pedwar

**Gweithred:** cliciwch ar sleid pedwar.

**Cyflwynydd:** Lle fyddwch chi’n mynd pan fyddwch eisiau bod yn gynnes ac yn sych? (Cwestiwn rhethregol). Eich cartref. Os ydych yn byw mewn tŷ, mewn fflat, mewn carafán neu ogof - dyma lle’r ydych yn cysgu a lle mae eich teulu’n byw; mae’n eich cadw’n sych ac yn ddiogel.

Ac mae bywyd gwyllt angen cartref yn union fel ni. Dyma bathew yn ei nyth. Mae’n edrych yn glyd iawn, yn ddy? Mae’r pathew’n treulio llawer o’i fywyd yn cysgu, felly mae nythod sy’n ddiogel, yn gynnes ac yn sych yn hynod o bwysig iddo.



# Sleid pump

**Gweithred:** cliciwch ar sleid pump.

- A** Coeden
- B** Pentwr o foncyffion
- C** Pwll
- Ch** Blwch nythu
- D** Blodau
- Dd** Gwrych

**Cyflwynydd:** Mae pob math o adar a bywyd gwyllt arall o'n cwmpas drwy'r amser. Mae pob un o'r lluniau ar y sleid hwn yn dangos cartrefi pwysig i fywyd gwyllt. Oes gennym ni unrhyw rai o'r "cartrefi" hyn yn ein hysgol? Pa rai?

Allwch chi ddyfalu pa fywyd gwyllt fyddai'n byw ym mhob un?

Mewn ambell i fan yn y DU, dydy adar a bywyd gwyllt ddim yn gallu dod o hyd i'r cartrefi a'r pethau eraill sydd eu hangen arny'n nhw i oroesi.

Mae'r RSPB yn ceisio helpu drwy greu mwy o gartrefi i fyd natur a sicrhau fod ganddyn nhw ddigon i'w fwyta, i'w yfed ac i oroesi. Mae angen ein cymorth ni arny'n nhw hefyd, ac fe allen ni roi cartref i fyd natur yma yn ein hysgol.

## Pwyntiau trafod a gwybodaeth bellach

- Gallwch ei wneud yn amlwg mai man a grëwyd gan ddyn fel lle i adar yr ardd nythu a magu cywion yw blwch nythu. Nid yw'n rhan o'u cynefin naturiol, sef mewn coeden neu wrych. Ond mae'n un ffordd y gallwn ni fel pobl helpu i roi cartref i fyd natur – helpu'r adar drwy ddarparu rhywle diogel a sych iddyn nhw fagu eu cywion.

## Enghreifftiau o'r mathau o fywyd gwyllt sydd angen y gwahanol leoedd a ddangosir:

- **Coeden** – pryfed fel lindys, adar o bob maint a gwiwerod. Mae coed derw (fel yr un a ddangosir) yn cynhyrchu mes sy'n cwmpo i'r ddaear ac yn cael eu bwyta gan famaliaid fel moch daear a cheirw, felly mae coed hefyd yn bwysig i greaduriaid nad ydyn nhw'n byw ynddyn nhw.
- **Pentwr o foncyffion** – pryfed genwair/mwydod, morgrug, chwilod, gwllithod a phryfed lledr – larfâu pryfed kannwyll.
- **Pwll dŵr** – llyffantod melyn, brogaod, madfallod dŵr, malwod dŵr, ceffylau dŵr, mursennod, gweision neidr a sglefrwyr dŵr.
- **Blwch nythu** – adar sy'n nythu, yn cynnwys y titw tomos las, y titw mawr ac aderyn y to. Yn y gaeaf, weithiau mae llawer o ddrywod yn closio at ei gilydd mewn blychau nythu i gadw'n gynnes!
- **Blodau** – pryfed sy'n peillio ac yn yfed neithdar, yn cynnwys cacwn, gwenyn eraill, gloynnod byw, gwyfynod (rhai i'w gweld yn hedfan yn ystod y dydd), a phryfed hofran.
- **Gwrych** – adar yn nythu ymysg y canghennau, pryfed copyn yn adeiladu eu gweoedd, a chreaduriaid yn chwilota am fwyd o dan wrychoedd, yn enwedig drywod, llygod a draenogod.

Efallai yr hoffech gyfeirio at y ffaith nad yw anifeiliaid yn goroesi ar eu pen eu hunain:

*Mae anifeiliaid ac adar yn byw mewn lle y maen nhw wedi 'addasu' yn benodol iddo neu yn 'briodol' iddo. Enw'r lle y maen nhw'n 'ffitio' ynddo yw eu cynefin.*



## Sleid chwech

**Gweithred:** cliciwch ar sleid chwech

**Cyflwynydd:** Rydym i gyd yn gwybod beth yw hon; cacynen. Rydw i'n siŵr bod pob un ohonom yn gwybod pa sŵn a wneir gan gacynen, yn dydyn? Ar ôl tri mi wnawn ni'r swn gyda'n gilydd 1... 2... 3... "Byssss!"

Hoffwn i bob un ohonoch feddwl yn ofalus beth fyddai gwenyn yn ei fwyta. Crëwch lun ohono fo yn eich meddwl.



## Sleid saith

**Gweithred:** cliciwch ar sleid saith.

**Cyflwynydd:** Oeddech chi'n gywir?

Mae gwenyn yn casglu neithdar a phail o flodau – mae neithdar yn eu darparu â llawer o egni i'w cadw'n brysur. Felly, i wneud yn siŵr eu bod yn cael y bwyd sydd ei angen arny'n nhw, mae angen digonedd o flodau ar wenyn.

Allwch chi feddwl beth allwch chi ei wneud i helpu i wneud yn siŵr bod gan gacwn y bwyd sydd ei angen? Codwch eich dwylo.

**Gweithred:** dewiswch ambell i blentyn o'r gynulleidfa i glywed eu hawgrymiadau.

### Nodyn i'r cyflwynydd:

Yn ddelfrydol byddai'r plant yn ymateb gydag atebion fel "plannu mwy o flodau". Efallai y bydd ambell i blentyn yn awgrymu "gosod neithdar" i'r gwenyn. Yn yr achos hwn, gadewch i'r plant wybod bod gwenyn yn yfed "dŵr siwgr" (cymysgedd o oddeutu dwy llwy fwrdd o siwgr gwyn gronnynog yn gymysg â llond llwy fwrdd o ddŵr) os caiff ei osod ar eu cyfer – a gellir cynnal archwiliadau hwyliog gyda hwn. Ond mae blodau'n well am ddenu gwenyn. Maen nhw'n naturiol ac yn darparu ffynhonnell ddibynadwy o neithdar.

**Cyflwynydd:** *I wneud yn siŵr bod mwy o neithdar ar gyfer gwenyn, gloŷnnod byw a phryfed eraill, gallwn blannu mwy o'r blodau y maen nhw'n hoff ohonyn nhw ar dir yr ysgol: mewn gwelyau blodau, blychau ffenestr, neu mewn potiau. Po fwyaf o flodau sy'n bodoli, y mwyaf o fwyd fydd ar gael i'r pryfed.*

## Pwyntiau trafod a gwybodaeth bellach

Mae'n bosib i chi grybwyll yma enwau rai blodau sy'n arbennig o dda am ddenu gwenyn a phryfed eraill, fel:

- Lafant
- Tafod yr ych
- Y bengaled
- Gwyddfifid
- Grug
- Bysedd y cŵn

Gallwch ddysgu mwy am blanhigion sy'n dda i fywyd gwyllt a garddio wrth ystyried bywyd gwyllt ar [rspb.org.uk/makeahomeforwildlife/advice/gardening/wildlife-friendly\\_garden.aspx](https://www.rspb.org.uk/makeahomeforwildlife/advice/gardening/wildlife-friendly_garden.aspx)



## Sleid wyth

**Gweithred:** Cliciwch ar sleid wyth.

**Cyflwynydd:** *Am beth mae'r plant yma'n chwilio amdany'n nhw ar dir eu hysgol? Codwch eich dwylo.*

**Gweithred:** dewiswch ambell i blentyn o'r gynulleidfa i glywed eu hawgrymiadau.

**Cyflwynydd:** *Allwch chi feddwl am ffordd y gallwn helpu'r adar ar dir ein hysgol?*

## Nodyn i'r cyflwynydd

Yn ddelfrydol byddai plant yn ymateb gyda'r ateb "adar". Ond os na fyddan nhw, fe all unrhyw awgrymiadau eraill a geir ganddyn nhw sbarduno trafodaethau defnyddiol am fywyd gwyllt arall sy'n byw ar dir yr ysgol, fel gloŷnnod byw a gwiwerod, neu gartrefi i fyd natur, fel coed.



## Sleid naw

**Gweithred:** Cliciwch ar sleid naw.

**Cyflwynydd:** Wel, un peth y gallwn ei wneud yw gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw ddigon i'w fwyta. Mae hyn yn arbennig o bwysig ym misoedd oer y gaeaf pan fydd eu bwyd naturiol – sef pryfed ac/neu hadau planhigion i'r rhan fwyaf o adar – yn anoddach dod o hyd iddo. Mae plannu eiddew/iorwg yn dda iawn am ddenu pryfed, oherwydd mae ei flodau'n darparu neithdar drwy'r hydref ac ymhell i mewn i'r gaeaf. Nid oes yr un planhigyn arall yn parhau mor hir i mewn i'r tywydd oer.

Mae'r darlun yn dangos enghraifft o'r bwydwr adar y gallwch ei greu. Gallwch ei hongian mewn man distaw a diogel, ac allan o gyrraedd cathod. Mae'r bwyd hwn yn rhoi llawer o fwyd i adar fel y titw mawr, a welir yn y llun hwn, ac yn rhoi egni iddyn nhw aros yn gynnes a goroesi'r tywydd oer.

Allwch chi feddwl am unrhyw fannau yn yr awyr agored, ar dir yr ysgol, lle gallwch hongian bwydwyr adar?

Os byddwn yn eu gosod lle gallwn eu gweld o'r ffenestri, yna gallwn wyllo'r adar o adeiladau'r ysgol heb eu dychryn.

### Pwyntiau trafod a gwybodaeth bellach

- Mae gwneud bwydwyr adar a theisen adar yn weithgaredd llawn hwyl i'r dosbarth. Am gyfarwyddiadau cam wrth gam ewch i: [rspb.org.uk/forprofessionals/teachers/resources/school-grounds/index.aspx](https://rspb.org.uk/forprofessionals/teachers/resources/school-grounds/index.aspx)



## Sleid 10

**Gweithred:** cliciwch ar sleid 10.

**Cyflwynydd:** *Pwy ydy hwn? Creadur bach yw hwn y gallwch ei weld ar dir eich ysgol. Ia, pryf lludw ydy hwn.*

*Ydych chi wedi gweld un erioed? (Cwestiwn rhethregol). Dydyn nhw ddim yn hawdd i'w gweld gan eu bod mor fach, ac yn aml maen nhw'n cuddio mewn pridd neu o dan greigiau neu botiau planhigion. Ond os edrychwch chi'n fanwl ar y ddaear, efallai y gwelwch un.*

*Beth ydych chi'n ei feddwl y gallwn ni ei wneud i helpu i roi cartref ar dir ein hysgol i bryfed lludw a mân drychfilod eraill? Codwch eich dwylo.*

**Gweithred:** dewiswch ambell i blentyn o'r gynulleidfa i glywed eu hawgrymiadau.

### Nodyn i'r cyflwynydd

Gobeithio y bydd y plant yn dweud rhywbeth yma am roi bwyd iddyn nhw neu adeiladu rhywle diogel iddyn nhw fyw.



## Sleid 11

**Gweithred:** cliciwch ar sleid 11.

**Cyflwynydd:** *Gallwn greu pentwr bywyd gwyllt iddyn nhw! Mae hwn yn gweithio fel gwesty i bryfed, ac yn rhoi lloches i bob math o fân drychfilod, fel y pryf lludw, chwilod, pryfed copyn, pryfed genwair/mwydod, morgrug a malwod, rhag y glaw. Mae'r holl dyllau a thwneli yn y pentwr yn fannau gwych iddyn nhw guddio ynddyn nhw. A bydd rhai, fel y fuwch goch gota, yn gaeafgysgu ynddyn nhw.*

*Oes rhywun yn gwybod beth yw ystyr "gaeafgysgu"?*

*Da iawn chi – dyma pryd y bydd creadur yn mynd i gysgu am sawl mis pan fydd y tywydd yn oer, er mwyn defnyddio cyn lleied o egni â phosib a goroesi'r gaeaf.*

*Allwch chi weld o beth y gwnaed y pentwr bywyd gwyllt hwn?*



# Sleid 12

**Gweithred:** cliciwch ar sleid 12.



**Cyflwynydd:** Rydym wedi dysgu llawer am fywyd gwylt heddiw a sut allwn ni i gyd helpu i roi i anifeiliaid yr hyn sydd ei angen arnyn nhw i oroesi. Allwch chi gofio rhai o'r pethau yr ydym wedi eu trafod a pha fywyd gwylt allwn ni ei helpu ar dir ein hysgol? Dylai'r lluniau yma eich helpu.

*Os byddwch chi'n helpu i roi cartref i fyd natur a rhoi'r bwyd a'r dŵr sydd ei angen, byddwch yn eu helpu i oroesi.*

*Ac mae hynny'n hynod o bwysig. Dychmygwch sut fyddai bywyd heb yr holl adar a bywyd gwylt arall yr ydym yn eu gweld bob dydd yn yr ysgol. Neu yr ydych yn eu gweld yn eich gardd neu gartref, neu'r parc lleol, neu ar eich ffordd i'r ysgol.*

## Pwyntiau trafod a gwybodaeth bellach

- Gallwch lawrlwytho llawer o daflenni gweithgaredd ynglŷn â darparu bwyd a chartref i fyd natur o'r **adran adnoddau awyr agored** ar [rspb.org.uk/schoolsoutreach](https://rspb.org.uk/schoolsoutreach)

## Sleid 13

**Gweithred:** cliciwch ar sleid 13.



**Cyflwynydd:** Mae bywyd gwylt yn byw o'n cwmpas, felly mae'r RSPB angen eich help i roi cartref i fyd natur yn eich ardal chi.

Ac mae angen i bob un ohonom roi cartref i fyd natur yn ein hysgol. Gadewch i ni ffeindio cartrefi i fyd natur sydd gennym eisoes...

## Y cyflwyniad yn dod i ben

Ffotograffau sleidiau: Bachgen yn edrych ar lyffant gan Eleanor Bentall, aderyn y to'n yfed dwr gan Ray Kennedy, gwiwer goch gan Mike Read, pathew cyffredin gan Roger Tidman, coeden dderw gan Mike Lane, pentwr o foncyffion gan Sue Kennedy, pwll gan David Levenson, titw tomos las mewn blwch nythu gan Chris Gomersall, blodau gwylt gan Jodie Randall, gwrych gan Andy Hay, cacynnen yn hedfan gan Richard Bedford, plant gydag ysbieddrych gan Eleanor Bentall, cacynnen ar flodyn gan Jesper Mattias, titw mawr ar fwydwyr adar gan David Tipling, pryf lludw gan Sue Kennedy a gwesty i drychfilod gan Mark Hamblin (rspb-images.com i gyd). Merch yn yfed, bachgen yn bwyta, a bachgen mewn gwely i gyd gan iStockphoto.com



yn rhoi  
cartref i  
fyd natur

## Gwybodaeth ychwanegol i athrawon, adnoddau a gweithgareddau dilynol:

- Cofiwch dynnu lluniau ac ysgrifennwch sut mae eich ysgol yn helpu i roi cartref i fyd natur, ac un ai e-bostiwch eich ffotograffau a'ch straeon i ni yn [education@rspb.org.uk](mailto:education@rspb.org.uk) neu anfonwch drydar amdany'n nhw: [@RSPB\\_Learning](#) neu [@RSPBCymru](#)
- Ewch i [rspb.org.uk/teaching](http://rspb.org.uk/teaching) am lu o weithgareddau a syniadau am brojectau ymarferol y gallwch eu cyflawni gyda'ch disgyblion i roi cartref i fyd natur ar dir eich ysgol.
- Mae cymryd rhan yn **Sialens Wyllt yr RSPB** yn golygu y gallwch chi wneud llawer o weithgareddau cyffrous eraill a dysgu am fywyd gwylt a'i helpu. Wrth i chi groesi gwahanol weithgareddau oddi ar eich rhestr, gallwch weithio tuag at dderbyn tystysgrif gwobr efydd, arian ac aur a sticeri difyr. Cewch wybod mwy am **Sialens Wyllt yr RSPB** yn [rspb.org.uk/schoolswildchallenge](http://rspb.org.uk/schoolswildchallenge)